



PERLLANNAU TRADDODIADOL

Arweiniad i fywyd gwylt a rheoli

Mae perllannau traddodiadol yn rhan o dreftadaeth a chefn gwlaid Prydain sy'n agos at galonnnau llawer. Fel arfer ceir ynddynt goed mawr sy'n tyfu ar wreiddgyffion cadarn wedi'u plannu'n weddol wasgaredig. Yn aml mae'r safleoedd hyn wedi bod ar yr un darn o dir ers canriffoedd ac yn cael eu rheoli heb gemegion. Maent yn fannau gwynch ar gyfer bioamrywiaeth a dangoswyd eu bod yn cynnig lloches i fwy na 1,800 o rywogaethau o blanhigion, ffyngau ac anifeiliaid.

Yn ogystal â'r berllan afalau adnabyddus, mae eirin, gellyg, eirin Mair, ceirios a chwins, i gyd yn cael eu tyfu mewn perllannau, a hefyd cnau cyll amaethyddol yn tyfu mewn math o berllan o'r enw "plat".

P'run ai yr ydych yn rheoli'ch perllan i gynhyrchu ffrwythau, neu ddim ond yn mwynhau bod â hen ddarn o berllan o fewn eich gardd, mae'r mannau hyn yn bwysig ar gyfer bywyd gwylt ac yn aml ceir ynddynt fathau o ffrwythau sy'n hen, yn brin ac yn arwyddocaol yn lleol.

Ar un adeg roedd y berllan draddodiadol yn olygfa gyffredin yn y dirwedd, ond bellach mae'r cynefin hwn o dan fygythiad difrifol. Dyna'r rheswm dros gynnwys perllannau traddodiadol ar restr Adran 42 o gynefinoedd pwysig iawn o ran gwarchod bioamrywiaeth yng Nghymru (Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006). Mae'r bygythiadau i hen perllannau'n cynnwys esgeulustod, dwysâd amaethyddiaeth a phwysau oherwydd datblygiad tir. Mae archfarchnadodd wedi bod yn mewnfiorio ffrwythau rhad o dramor ers amser hir, ac mae hyn wedi peri i gynefinoedd perllannau fynd yn anymarferol mewn termau economaidd ac yn fwyfwy prin. Mae arwynebedd perllannau traddodiadol yng Nghymru wedi lleihau'n fawr ers canol yr ugeinfed ganrif.

Ein nod yw canfod y perllannau traddodiadol sydd ar ôl er mwyn cynnal a chadw'r cynefin unigryw ac arbennig hwn, ac ar yr un pryd hybu'r dulliau mwy traddodiadol o reoli perllannau a chodi proffil ffrwythau sy'n cael eu tyfu'n lleol.

Gall perchnogion a rheolwyr perllannau helpu i ddiogelu'r bywyd gwylt sy'n gysylltiedig â'r berllan draddodiadol trwy ddilyn rhai camau syml, a ddangosir y tu mewn.

bywyd gwylt yn eich perllan

Mae perllannau traddodiadol yn tueddu i fod yn ddarnau bach o dir. Yn aml ceir ynddynt glytwaith o gynefinoedd sy'n bwysig i fywyd gwylt, gan gynnwys pren sy'n pydr, glaswelltir blodeuog, pwl a ffynonellau neithdar. Mae'r rhain yn cynnig bwyd, lloches a safleoedd bridio posibl i lawer o wahanol rywogaethau.

ffyngau

Ceir ffyngau ym mhob man bron ac maent yn chwarae rhan hanfodol yn yr ecosystem. Mae llawer o ffyngau'n hanfodol i ddadelfennu ac ailgylchu gweddillion planhigion ac mae eraill yn allweddol i gludo maetholion er mwyn i goed a phlanhigion dyfu cymaint ag sy'n posibl. Grŵp o ffyngau'r glaswelltir yw capiau cwyr, sydd â thagellau trwchus ac sy'n teimlo'n gwyradd. Ni allant oddef gwrteithiau cemegol ac felly maent yn arwydd o laswelltir o ansawdd da sydd heb gael ei wella. Mae'n well ganddynt safleoedd lle mae'r glaswellt yn cael ei borï neu ei dorri'n aml ac felly'n fyr, ac mae arnynt angen cryn dipyn o amser i ddatblygu; oherwydd hyn maent yn prinrhau fwyfwy.

Yn ogystal â ffyngau'r glaswelltir, mae yna lawer o rywogaethau sy'n gysylltiedig â phren byw a phren sy'n pydr ar goed perllannau. Mae presenoldeb ffrwyth ffyngau wedi peri llawer o bryder yn aml. Fodd bynnag, ychydig o ffyngau sy'n bathogenau o bwys a bel-lach, yn lle cael eu hystyried yn niweidiol, gwyddys bod ffyngau'n rhyddhau maetholion yn y pridd a chredir eu bod yn allweddol i ymestyn oes coed. Yn aml gallant fod o werth cadwraethol ynddynt eu hunain.

cennau

Mae cennau'n tyfu'n araf ac o ganlyniad maent yn fwyaf toreithiog ac amrywiol lle mae'r amgylchiadau'n sefydlog am gyfnodau hir o amser. Maent yn sensitif iawn i lygredd awyr, yn arbennig sylffwr deuocsid. Dim ond ychydig o rywogaethau a all oroesi mewn mannau â llawer o lygredd ac felly maent yn ddangosyddion ansawdd awyr. Y cennau sy'n fwyaf sensitif i lygredd awyr yw'r rhai deiliog a'r rhai sydd fel llwyni bychain, ac mae'r rhai all ei oddef fwyaf i gyd yn grwstog neu'n grofennog o ran eu golwg.

uchelwydd

Mae llawer o hanes a lîen yn perthyn i'r planhigyn adnabyddus hwn, a gysylltir yn aml â'r Nadolig. Mae ganddo blanhigion gwryw a benyw ar wahân; mae'r gwryw'n cynhyrchu blodau euraid yn y gwanwyn a'r fenyw sy'n cynhyrchu'r aerol gwyn nodweddiadol yn y gaeaf. Planhigyn lled-barasitig ydyw, sy'n cael dŵr a maetholion oddi wrth yr organeb letyol. Fe'i ceir ar fwy na 200 o wahanol rywogaethau o goed, a choed afalau'r perllannau yw'r mwyaf cyffredin o bell ffordd. Mae'r uchelwydd ei hun yn cynnal chwe rhywogaeth o bryfed a geir ar yr uchelwydd yn unig, gan gynnwys un pycsen ysglyfaethus sy'n Anfynych yn Genedlaethol, a rhywogaeth sydd yn y Llyfr Data Coch, sef deilroliwr yr uchelwydd.



planhigion

Mae cymuned planhigion llawr y berllan yn rhan bwysig iawn o'r cynefin. Os yw wedi cael ei dorri i gael gwair neu ei borï'n ysgafn ac erioed wedi cael ei drin â chemegion, yn aml mae'n doreithiog o rywogaethau a gall fod yn llawn blodau gwylt megis briallu Mair a thegeirianau. Yn ogystal â chreu sioe liwgar yn y gwanwyn, mae'r blodau gwylt hyn yn ffynonellau hanfodol o neithdar a phailli i bryfed.

pryfed

Mae perllannau traddodiadol yn cynnal amrywiaeth o infertebratau oherwydd amrywiaeth y cynefin a'r ffaith bod yno safleoedd agored, heulog. Mae gwenyn, sy'n chwilio am neithdar ymlysg y blodau gwylt a blodau'r coed ffrwythau, yn helpu i beillio coed y berllan.

Mae pryfed sy'n dibynnu ar bren sy'n pydr, gan gynnwys y chwilen emrallt, yn arbenig o gyffredin mewn hen berllannau lle mae gan goed nodweddlion hynafol megis tyllau pydredig, boncyffion gwag a rhisgl wedi holli.

Mae'r pryfed eraill a geir yma'n cynnwys gwyfynod, ieir bach yr haf a phryfed hofran. Efallai y ceir hefyd dwmpathau morgrug, sy'n arwydd o hen laswelltiroedd.


adar

Mae llawer o rywogaethau o adar yn defnyddio perllannau, gan gynnwys titwod, brychod, llinoisiaid a gwybedogion. Mae cnocell y coed leiaf a phrinnaf Prydain, y gnocell fraith leiaf, yn dibynnu ar hen goed gyda phren sy'n pydr i gynnig mannau nythu. Mae poblogaeth yr aderyn swil hwn wedi prinrhau'n gyflym ers 1980, yn bennaf, fe gredir, oherwydd colli cynefinoedd pren marw a phren sy'n pydr. Gellir gweld telorion penddu a brychod y coed yn bwydo ar aerol uchelwydd ac maent yn bwysig i wasgari'r hadau.

mamaliaid

Mae perllannau traddodiadol yn cynnig llawer o nodweddlion sy'n bwysig i nifer o rywogaethau o ystlumod: gall tyllau mewn hen goed gynnig mannau clwydo yn y gaeaf a bydd glaswelltir heb ei wella sy'n llawn infertebratau yn cynnig cyflenwad da o fwyd. Mae llygod yn manteisio ar ddarnau o laswellt garw, twmpathog, ac mae hyn yn denu ysglyfaethwyr megis tylluanod. Mae pathewod wedi cael eu gweld yn chwilio am fwyd mewn perllannau cnau cyll amaethyddol.

y chwilen emrallt



Y chwilen emrallt (*Gnorimus nobilis*) yw un o'n chwiloged prinnaf. Mae'r chwilen hon, sy'n lliw gwyrdd metelaidd â gwawr efydd, tua 2cm o hyd. Mae'n gysylltiedig â hen berllannau lle mae'n ddibynnol ar hen bren sy'n pydru y tu mewn i goed byw, yn enwedig coed ceirios, eirin ac afalau.

Ymddengys mai prif ardal ddosbarthiad y chwilen emrallt yw rhanbarthau Lloegr lle mae ffrwythau'n cael eu tyfu, gan gynnwys

Sir Gaerwrangon, Sir Gaerloyw a Sir Henffordd. Yn y gorffennol roedd dosbarthiad ehangach gan y rhywogaeth ac o gofio pa mor agos yw'r ardal graidd hon i Gymru, mae'n bosibl y ceir y chwilen emrallt mewn siroedd cyfagos megis Sir Fynwy ond nad oes neb wedi'i hadnabod.

Dyna pam mae mor bwysig codi ymwybyddiaeth o'r rhywogaeth brin hon.

Mae cyfnod larfal y chwilen emrallt yn digwydd yn gyfan gwbl mewn boncyffion a changhennau sy'n pydru, lle mae'r larfau'n bwydo ar falurion y pren sy'n pydru. Ar ôl iddi dded allan, yn ystod misoedd yr haf, weithiau gellir gweld y chwilen mewn oed yn glanio ar flodau megis efwr, erwain ac ysgaw.

Mae'r chwilen emrallt yn edrych yn debyg i'r chwilen rosod (*Cetonia aurata*), sydd ychydig yn fwy. Mae cloradenydd llyfn gan y chwilen rosod ond mae cloradenydd crychiog â smotiau bach gwyn gan y chwilen emrallt. Mae gwahaniaethau yn siâp y thoracs hefyd. Mae'r man trionglog bach rhwng y cloradenydd lle maent yn cyrraedd y thoracs (y scutellum) yn ffurfio triongl hafalochrog ar chwiloged emrallt ond yn hirgul ar chwiloged rhosod.

Mae'n well gan y chwilen emrallt berllannau lle ceir coed ffrwythau aeddfed rhwng 50 ac 80 mlwydd oed. Gall y safleoedd hyn ddiflannu'n hawdd o ganlyniad i gael eu torri neu eu clirio, yn enwedig os yw'r coed yn cyrraedd diwedd eu hoes gynhyrchiol.



Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y chwilen emrallt neu os ydych yn meddwl eich bod wedi gweld y chwilen yn eich perllan, cysylltwch â PTES.

Ydych chi wedi gweld y ffwng hwn ar eich hen goeden afalau?



© Llyfrgell Luniar Comisiwn Coedwigiaeth

Ffwng prin iawn yw cosyn danheddog y berllan (*Sarcodontia crocea*). Mae mewn cyflwr "bregus" yn y DU ac mae o dan fygythiad difrifol oherwydd bod hen goed afalau'n cael eu torri.

- Mae'r ffwng yn ffurfio clytiau cramenog melyn euraid, gyda stalactidau bach neu 'ddannedd'. Fe'i ceir ar bennau canghennau toredig sy'n pydru neu y tu mewn i dwll lle mae'r pren wedi pydru - fel arfer ar uchder y pen ac fel arfer ar goed sydd yn yr haul.
- Y nodwedd fwyaf neilltuol yw ei aroglau. Pan fo'n ffres mae'r ffwng yn arogleuo fel pinafal ond wrth iddo heneiddio mae'n dechrau arogleuo'n gryf fel ffrwythau sy'n pydru.
- Gellir gweld ffrwyth y ffwng rhwng mis Mehefin a mis Medi.
- Dim ond ar ruddin marw'r goeden mae'r ffwng yn bwydo ac nid yw'n fygythiad i'r goeden.
- Mae'n brin eithriadol (ar hyn o bryd dim ond ar 14 safle ym Mhrydain mae i'w gael) a dim ond ar goed afalau y'i ceir. Os yw ffwng yn edrych yn debyg i hyn ond ei fod ar goed eraill, neu ar adegau eraill o'r flwyddyn, nid cosyn danheddog y berllan mohono!

Da chi, cadwch a choleddwch hen goed!

Os ydych chi'n meddwl eich bod wedi gweld y ffwng hwn, cysylltwch â Judy Webb ar 01865 377487

camau syml ar gyfer bioamrywiaeth

Dyma rai camau syml a rhad y gallwch eu cymryd er mwyn hybu neu gynnal bywyd gwylt yn eich perllan. Maent wedi'u seilio ar bedair prif egwyddor: cadw pren sy'n pydru, sicrhau amrywiaeth fawr o gynefinoedd bwydo a nythu i amrywiaeth o rywogaethau, a defnyddio llai o gemegion. Mae rheoli perllan mewn modd dwysedd isel o fudd i fywyd gwylt a gellir rheoli rhai rywogaethau o blâu'n naturiol trwy annog eu hysglyfaethwyr.

Gadewch bren marw a phren sy'n pydru

Mae pren sy'n pydru'n rhan o broses heneiddio naturiol y goeden a dylid ei gadw. Wrth i goeden aeddfedu, bydd yn nychu'n naturiol ac yn dechrau mynd yn wag y tu mewn. Bydd hyn yn ei galluogi i aros i fyny, ailgylchu maetholion ac yn y pen draw yn caniatáu i'r goeden ffynnu'n hirach. Felly nid yw pren marw a phren sy'n pydru'n golygu o angenrehidrwydd fod y goeden yn afiach. Bydd yn dal i allu byw a chynhyrchu ffrwythau am lawer o flynyddoedd i ddod, ac ar yr un pryd cynnig cynefin gwerthfawr i lawer o rywogaethau. O bersbectif bywyd gwylt, pren sy'n pydru ac sy'n sefyll yw un o'r elfennau mwyaf gwerthfawr yng nghynefin y berllan. Gall boncyffion gwag, holtau yn y rhisgl a thyllau pydredig gynnig mannau nythu i adar ac ystlumod a gallant gynnal amrywiaeth fawr o infertebratau.

Mae yna glefydau a all leihau cnydau ffrwythau neu niweidio coed. O ganlyniad, dylid symud ymaith a llosgi unrhyw bren y mae clefyd a nodwyd wedi effeithio arno. Lle bo'n rhaid i bren sy'n pydru ac sy'n beryglus gael ei symud ymaith, dylid ei bentyrru gerllaw er lles ffngau ac infertebratau.

Os ydych chi eisiau mynd gam ymhellach a chreu cynefin diddorol arall yn eich perllan, rhowch rywfaint o bren sy'n pydru mewn pwll dŵr. Mae pren gwlyb yn gartref i gyfres unigryw arall o organebau pwysig.

Plannwch goed ifanc

Mae plannu coed newydd yr un mor bwysig â chadw coed hynafol, gan y bydd yn sicrhau dilyniant cynefinoedd i amrywiaeth o rywogaethau. Wrth i'r coed yn eich perllan heneiddio a marw, dylech gynllunio i blannu coed ifanc yn eu lle. O ddewis, dylent fod wedi'u cynhyrchu trwy impio deunydd o goed sy'n bodoli eisoes ar wreiddgyffion tal neu hanner tal. Nid yn unig bydd hyn yn helpu i gadw mathau hen a lleol, ond y coed ifanc hyn fydd coed hynafol y dyfodol.

Gwrychoedd ac ymylon

Nid coed ffrwythau yw unig elfen bwysig cynefin y berllan. Bydd creu pyllau, gadael corneli gwylt ac ymylon garw a chadw gwrychoedd toreithiog o rywogaethau'n cynyddu amrywiaeth. Yn lle torri gwrychoedd bob blwyddyn, tociwch ychydig arnynt ddim yn aml a pheidiwch â thorri'r holl wrychoedd yn yr un flwyddyn, er mwyn sicrhau bod blodau a ffrwythau ar gael i adar a phryfed. Cadwch goed yn y gwrychoedd lle bo'n bosibl. Mae stribedi neu gorneli o laswellt garw heb ei dorri na'i borïn cynnig lloches a bwyd i bryfed sy'n gaeafu yno, adar a mamaliaid bach, a man da i adar ysglyfaethus hela. Mae coed, llwyni a phlanhigion sy'n blodeuo yn y berllan yn ffynonellau pwysig o neithdar a phaill pan mae pryfed yn oedolion. Y planhigion arbennig o ddefnyddiol yw aelodau o deulu llygad y dydd, efwr a rywogaethau eraill o deulu'r wmbeliffer.

Pori neu dorri i gael gwair

Pori a thorri i gael gwair yw'r ffyrdd traddodiadol o reoli llawr perllan. Bydd gwahanol anifeiliaid a lefelau stocio yn cynhyrchu gwahanol gasgliadau o flodau. Fodd bynnag, y cyfraniad mwyaf o bell ffordd i gynyddu bioamrywiaeth perllan (ac yn wir unrhyw ddarn o dir) yw peidio â defnyddio chwynladdwyr a gwrteithiau. Bydd dibynnu ar ffrwythlondeb naturiol y pridd yn ffafrio rywogaethau'r ddôl a'r coetir yn hytrach na rywogaethau sy'n awchu am faetholion megis dail tafol a danadl poethion.

Ffrwythau cwymwysig

Gall ffrwythau cwymwysig gynnig ffynhonnell bwysig o fwyd yn yr hydref a'r gaeaf i amrywiaeth o fywyd gwylt a gallant helpu i sicrhau y bydd rhai rywogaethau'n goroesi. Bydd adar a mamaliaid, ieir bach yr haf, gwyfynod a gwenyn i gyd yn cael eu denu i'r wledd naturiol doreithiog hon.

Uchelwydd yn eich perllan

Uchelwydd yw un o blanhigion mwyaf adnabyddus Prydain. Mae'n adnabyddus i bawb ac mae ei hanes, ar lafar gwlad ac mewn chwedlau, yn mynd yn ôl canrifoedd. Mae llawer mwy i uchelwydd na chusanu adeg y Nadolig!



Mae cannoedd o rywogaethau o uchelwydd yn y byd ond dim ond un rhywogaeth sydd ym Mhrydain sef y *Viscum album*.

Llwyn bytholwydd parasitig yw uchelwydd sy'n tyfu ar goed a llwyni. Mewn gwirionedd, mae'n lledbarasitig am fod ganddo ddail gwyrdd i ffotosyntheseiddio ond mae'n dibynnu ar y lletywr am ddŵr a maethynnau mwynol.

Mae uchelwydd wedi'i ganfod ar dros 200 o goed lletyol ond y mwyaf cyffredin o'r rhain yw'r goeden afalau, gyda choed leim a pholys hefyd yn lletywyr poblogaidd. Ymddengys fod y planhigyn yn ffafrio coed lletyol mewn lleoedd agored yn hytrach na choetiroedd, felly mae perllannau yn gynefinoedd delfrydol.

Mae dosbarthiad uchelwydd wedi'i ganoli o amgylch Swydd Gaerloyw, Swydd Gaerwrangon a Swydd Henffordd ac yng Ngwlad yr Haf. Dim ond yn yr ardal graidd hon y mae perllannau'n gynefinoedd lletyol cyffredin iawn. Y tu allan i'r siroedd hyn, mae'r planhigyn yn ymddangos yn bennaf ar leimiau mewn parc-diroedd sydd wedi dod yn lletywyr uchelwydd cynyddol gyffredin yn ôl y cofnodion gwasgaredig yn nwyrain a de-ddwyrain Lloegr.

Dim ond achosion prin o uchelwydd a geir yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a gogledd a dwyrafn Lloegr. Credir mai'r hinsawdd ac argaeledd coed lletyol yw'r ffactorau dylanwadol mewn perthynas â dosbarthiad uchelwydd.

Uchelwydd yw'r unig blanhigyn brodorol ag aeron gwyn ac felly prin yw'r adar sy'n ei adnabod fel ffynhonnell bwyd gan olygu bod gwasgaru hadau'n broblem. Yn ffodus mae dau aderyn sy'n gwneud hynny; brych y coed sy'n bwytâr aerom yn gyfan ac yn ysgarthur' hedyn a'r telor penddu sy'n sychu'r hedyn gludiog ar gangen gyda'i big.

Yn ogystal â'r traddodiadau tymhorol poblogaidd sy'n gysylltiedig ag uchelwydd, mae gan y planhigyn diddorol hwn nodweddion llesol hefyd a bellach defnyddir rhannau ohono mewn therapi canser.

Cynaeafu uchelwydd

Bydd coed afalau sydd wedi'u gorchuddio ag uchelwydd yn tyfu llai na'r arfer ac ni fyddant yn cynhyrchu cymaint o ffrwyth ac am eu bod yn gallu gwrthsefyll y gwynt yn well, mae mwy o siawns o beillio ar y gwynt. Gall cynaeafu eich uchelwydd fod yn ffordd ddelfrydol o leihau effaith y planhigyn a chael ffrwyth o'ch perllan.

Er nad yw nifer coed uchelwydd yn lleihau, fel y credir yn aml, efallai bod lleihad mewn niferoedd ar lefel leol sy'n gysylltiedig â cholli perllannau. Mae'r planhigyn hefyd yn gartref i rai anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin.

Felly mae'n bwysig cynaeafu eich uchelwydd mewn ffordd gynaliadwy gan gadw rhai o'r planhigion benywaidd sy'n cynhyrchu aerom yn ogystal â'r planhigion gwrywaidd er mwyn sicrhau presenoldeb blynnyddol parhaus uchelwydd iach mewn perllannau.

Ni fydd cusanu o dan yr uchelwydd fyth yr un fath eto ar ôl i chi sylweddoli bod chwe rhywogaeth o anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn gysylltiedig â'r planhigyn diddorol hwn.

Gŵyr pawb fod llawer o hanes a llên yn gysylltiedig ag uchelwydd ond ni wyr pawb fod gan y planhigyn ei ecosystem ei hun. Mae'r ffawna arbennig yn cynnwys un gwylfyn, un gwiddodyn a phedwar prif, y mae tri ohonynt yn bwydo ar y planhigyn a'r llall yn ysglyfaethu ar y pryfed eraill. Darganfuwyd y widdon uchelwydd *Ixapion variegatum* gyntaf fel rhywogaeth newydd ym Mhrydain yn Swydd Henffordd yn 2000 a dim ond yn ddiweddar y darganfuwyd y chwilen capsid *Hypocephalus visci* yn 2003 yng Ngwlad yr Haf. Gan fod uchelwydd yn tyfu'n uchel ar frig coed, mae bron yn amhosibl cofnodi'r creaduriaid sy'n ddibynnol arno ac mae'n debygol eu bod yn fwy cyffredin nag yr ydym yn ei feeddwl.



Brith Uchelwydd

Mae'r gwylfyn brith uchelwydd, sef rhywogaeth arall â blaenoriaeth, i'w weld yn bennaf mewn perllannau lle mae uchelwydd yn tyfu ar goed afalau, ond mae i'w gael mewn mannau eraill hefyd. Mae'r gwylfyn yn frith gyda chymysgedd o wyn, llwyd golau a glas cobalt, gyda'r lliwiau'n cyfateb i law aderyn. Mae lindys y gwylfyn yn tyrchu'r dail, gan dreulio rhan helaeth o'r flwyddyn (rhwng mis Medi a mis Mai) mewn un ddeilen.

Gwybodaeth Ddefnyddiol

Mistletoe Matters

Mistletoe Matters yn darparu gwybodaeth am bob agwedd ar yr uchelwydd yn y DU, gan gynnwys sgyrsiau a theithiau yn ardaloedd yr uchelwydd, a chyngor ar dyfu, rheoli a gwarchod uchelwydd.

www.mistletoes-r-us.co.uk

Tudalennau'n ymweud ag Uchelwydd

Mae'r wefan hon yn rhoi cyflwyniad i uchelwydd ledled y byd. Nod y wefan yw rhoi rhywfaint o gefndir pob agwedd ar uchelwydd - biolog, traddodiadau a'r defnydd a wneir ohono ym maes meddyginaeth.

www.mistletoe.org.uk

Gwarchod Gloynnod Byw

Mae Gwarchod Gloynnod Byw wedi llunio taflen feithiau, y gellir ei lawrlwytho, sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol i'ch galluogi i adnabod gwylfyn brith uchelwydd a'i warchod

www.butterfly-conservation.org





Mae llawer o fathau o ffrwythau â chysylltiadau hanesyddol â lleoedd penodol ledled y wlad. Mae rhai wedi'u bridio neu eu darganfod mewn ardal ac wedi'u henwi ar ôl yr ardal honno neu gan yr unigolyn a ddarganfu neu a fagodd y ffrwythau. Tyfwyd llawer o fathau eraill mewn ardal. Yn sgil dirywiad perllannau traddodiadol, mae'r mathau lleol hyn o ffrwythau, sy'n aml yn brin, mewn perygl o gael eu colli ac mae rhai eisoes wedi diflannu.

Wrth blannu perllan newydd neu "lenwi'r bylchau" mewn rhai sy'n bodoli eisoes, ystyriwch blannu mathau lleol. Yn ogystal â phlannu coed sy'n tyfu orau yn y manau y maent yn tarddu ohonynt, byddwch hefyd yn helpu i warchod amrywiaeth diwylliannol a genynnol.

Os yw eich perllan eisoes yn cynnwys math lleol neu fath prin, ystyriwch ei ddiogelu drwy ei drawsblannu ar wreiddgyff addas. Mae nifer o gyrsiau ar gael sy'n addysgu'r technegau hyn yn ogystal â sgiliau rheoli perllannau eraill fel tocio a blaguro.

Cyrsiau hyfforddi a gweithdai

- Canolfan Tywi Centre - www.canolfantywi.org.uk
- Tom Adams - www.countrysidecrafts.co.uk
- Orchard Skills Centre - www.dayscottage.co.uk

Ble i brynu coed ffrwythau

**Coed Ffrwythau Dolau-hirion,
Sir Gaerfyrddin , 01558 668744**

Maent yn gwerthu mathau o goed afalau a choed gellyg o Gymru gan gynnwys ystod o fathau seidr a pherau. Maent hefyd yn cynnig gwasanaeth trawsblannu ar gyfer afalau a gellyg.

**Ian Sturrock & Sons, Bangor,
01248 371573**

Maent yn tyfu mathau prin, organig o goed afalau, gellyg, eirin ac eirin du o bob cwr o Gymru, ac mae pob un yn unigryw ac yn brin iawn.

**Tom Adams
01691 777512**

Gwerthu afalau treftadaeth sy'n tyfu'n dda yng Nghymru ac ar hyd y ffin, ynghyd â mathau sydd wedi tarddu o'r Mers.

I gael mwy o wybodaeth am wahanol fathau o ffrwythau lleol a thyfwyr coed ffrwythau arbenigol edrychwrch ar y Gazetteer of Orchard Heritage gan Common Ground ar wefan yr Orchard Network: www.orchardnetwork.org.uk

Fruit identification

gardd rhs wisley

Mae gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol wasanaeth tebyg i enwi ffrwythau, sy'n costio £16 am bob math i bobl nad ydynt yn aelodau. Cysylltwch â'r: RHS Garden, Wisley, GU23 6QB 01483 224234

diwrnodau afalau

Yn aml bydd arbenigwr lleol wrth law yn ystod Diwrnodau Afalau ar 21 Hydref i adnabod afalau y mae pobl wedi dod gyda hwy. Ceir gwybodaeth am Ddiwrnodau Afalau ar wefan yr Orchard Network: www.orchardnetwork.org.uk

cymdeithas ffrwythau coed Cymru

Maent yn cynnig help i bobl wrth adnabod coed ffrwythau, yn enwedig yr hen fathau brodorol o Gymru. Bob hydref, cynhelir diwrnodau Adnabod Afalau yng Ngorllewin Cymru www.treefruitsocietyofwales.org.uk

Oherwydd bod yna o leiaf 6,000 o wahanol fathau o afalau, 500 o fathau o ellyg a 300 o fathau o eirin, mae eu hadnabod yn fater cymhleth. Gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith adnabod ffrwythau gan lond dwrn o arbenigwyr, sydd wedi casglu toreh o wybodaeth yn ystod oes o brofiad a diddordeb.

brogdale farm

Un o'r ffyrdd gorau a mwyaf dibynadwy o adnabod mathau o ffrwythau yw cael help gan Brogdale Farm, cartref Casgliad Ffrwythau Cenedlaethol Prydain yng Nghaint. Mae adnabod ffrwyth yn costio £20.00 am bob sampl.

Y cyfeiriad yw:
Brogdale Farm,
Brogdale Road,
Faversham, Kent, ME13 8XZ
01795 536250

www.brogdalecollections.co.uk

"Gallech wneud pastai afalau bob dydd am 16 mlynedd neu ragor heb ddefnyddio'r un math o afal ddwywaith..."

Common Ground, The Apple Source Book (1991)

darllen pellach

The Book of Apples :
Joan Morgan and Alison Richards

Apples A Field Guide :
Michael Clark

The Apple Book :
Rosie Sanders

Apples: A Guide to the Identification of International Varieties :
John Bultitude
(Out of Print)

A Somerset Pomona :
Liz Copas

Fruit: An Illustrated History :
Peter Blackburne-Maze

Pears:
Jim Arbury

The Grafters Handbook :
R.J. Garner

RHS Pruning :
Christopher Brickell

Orchards:
Jonathan Latimer

The Common Ground Book of Orchards:
Common Ground

Community Orchards Handbook :
Common Ground

Protecting our Orchard Heritage: Sustain



gwybodaeth ddefnyddiol

Y Rhwydwaith Perllannau

Mae'r wefan hon yn cynnwys adnoddau cenedlaethol a rhanbarthol sydd i'w cael yn y DU, yn ymwnedd ag amrywiaeth o bynciau, er enghrafft gwarchod a rheoli perllannau, grantiau a chynllunio. Mae'n tynnu sylw at nifer o sefydliadau gwahanol sy'n mynd ati i warchod Perllannau Traddodiadol.

www.orchardnetwork.org.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw ymgynghorydd statudol y Llywodraeth ar faterion yn ymwnedd â chynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a chyfleoedd hamddena awyr agored ar draws Cymru, ac ar hyd ei glannau.

www.ccw.gov.uk

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

Mae'n dod â'r bobl allweddol ynghyd, o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, er mwyn hyrwyddo a monitro'r camau a gymerir dros fioamrywiaeth yng Nghymru.

www.biodiversitywales.org.uk

Dolau-hirion Fruit Trees

Maent yn gwerthu mathau o goed afalau a choed gellyg o Gymru gan gynnwys ystod o fathau seidr a pherai. Maent hefyd yn cynnig gwasanaeth trawsblannu ar gyfer afalau a gellyg.
<http://users.tinyonline.co.uk/applewise/>

Menter Perllannau Gogledd Ddwyrain Cymru

Cafodd y fenter hon ei rhoi ar waith er mwyn achub y ffrwythau sy'n unigryw i Ogledd Ddwyrain Cymru cyn iddynt ddiflannu. Y nod yw ailfael yn yr arfer o dyfu ffrwythau'n lleol trwy Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

<http://wsi-preview.co.uk/orchard/index.asp>

Cymdeithas Perai a Seidr Cymru

Mae Cymdeithas Perai a Seidr Cymru wedi adfywio crefft y diwydiant seidr a pherai yng Nghymru. Ei nod yw annog mwy o bobl i werthfawrogi'r diodydd crefft naturiol hyn, arwain cyfnod newydd o blannu perllannau a hyrwyddo perai a seidr Cymru fel dewis amgen brodorol i win. Ceir gwefan llawn gwybodaeth sy'n cynnwys Afalau Seidr a Gellyg Perai Cymru.

www.welshcider.co.uk

Perllannau Cymru, grŵp trafod Yahoo

Grŵp trafod Yahoo yw Perllannau Cymru ar gyfer unrhyw un ym Mhowys, gweddill Cymru a siroedd y Gororau sydd â diddordeb mewn perllannau. Cewch hefyd daflenni gwybodaeth am bynciau'n ymwnedd â rheoli perllannau a rhestr o gysylltiadau ar gyfer llawfeddygon coed proffesiynol. Er mwyn ymuno â'r grŵp, anfonwch e-bost i orchardsofwales-subscribe@yahoo-groups.co.uk

Cymdeithas Ffrwythau Coed Cymru

Nod y gymdeithas yw gwarchod hen fathau brodorol o Ffrwythau Coed yng Nghymru ac annog pobl i dyfu eu ffrwythau coed eu hunain. Mae help ar gael i bobl adnabod coed ffrwythau, yn enwedig yr hen fathau brodorol o Gymru. Mae'r gymdeithas yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau hefyd.

www.treefruitsocietyofwales.org.uk

Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol

Pwrpas y Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol yw cefnogi, cynrychioli a hyrwyddo gerddi a ffermydd a reolir gan y gymuned ar hyd a lled y Deyrnas Unedig.

www.farmgarden.org.uk

Marcher Apple Network

Cymdeithas er adfer hen fathau o afalau a gellyg yn rhan deheuol y Gororau.

www.marcherapple.net

Ceidwaid Hadau Bro Ddyfi

Arweiniad llawn gwybodaeth ar dyfu ffrwythau ym Mhowys.

www.dyfivalleyseedssavers.org.uk

Grŵp Perllannau Swydd Gærloyw

Yma cewch lawer o wybodaeth am greu neu adfer perllannau traddodiadol.

www.gloucestershireorchardgroup.org.uk

Luniau: Mark Sanders, Chris Harris, Matt Smith, Keith Alexander, Harry Green, PTES



TRADITIONAL ORCHARDS

a guide to wildlife and management

Traditional orchards are a much loved part of our British heritage and countryside. They generally consist of large trees grown on vigorous rootstocks planted at low densities. Often occupying the same piece of land for centuries, and managed without chemical input, these sites are hotspots for biodiversity and have been shown to provide a refuge for over 1800 species spanning the plant, fungi and animal kingdoms.

In addition to the well-known apple orchard, plums, pears, damsons, cherry and quince are all grown in orchards, and cobnuts (a type of cultivated hazel) are grown in a type of orchard called a plat.

Whether you are managing your orchard for fruit production, or just enjoy having a remnant orchard as an extension to your garden, these areas are important for wildlife and often harbour old, rare and locally significant fruit varieties.

